



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Awdurdodau Tân Cyfun Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Dyddiad / Date: 3 Gorffennaf 2020

Annwyl Gyfaill,

Ffurflen Alldro Cyfalaf Blynyddol, 2019-20

Heddiw, byddwn yn anfon neges e-bost a fydd yn cynnwys taenlen ar gyfer y ffurflen uchod at ein person cyswllt yn eich awdurdod. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu yn unol ag adran 168 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Dylid cwblhau a dychwelyd y daenlen hon erbyn 31 Gorffennaf 2020 drwy e-bost. Sylwch nad oes rhaid i ni gael copi caled wedi'i lofnodi o'r ffurflen hon bellach.

1. Sut y caiff y data eu defnyddio

Mae'r ffigurau a gofnodir ar y ffurflen alldro cyfalaf yn rhan hanfodol o'r Cyfrifon Gwladol, felly mae'n bwysig eu bod mor gywir ac mor amserol â phosibl. Nid yw'r wybodaeth a gesglir yma ar gael yn unman arall. Bydd y ffigurau o'r ffurflen yn cael eu cyhoeddi'n llawn ar wefan StatsCymru. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn ymatebion i Gwestiynau'r Cynulliad, wrth ymdrin â gohebiaeth weinidogol ac at ddibenion monitro mwy cyffredinol.

Sylwch, er mai'r dyddiad cau swyddogol yw'r 31ain Gorffennaf o hyd, y dyddiad cau yn y pen draw yw'r 15fed Medi, y dyddiad a bennwyd ar gyfer cyfarfod yr is-grŵp Dosbarthu ar gyfer y setliad.

I osgoi dyblygu ceisiadau am wybodaeth, mae'n bosibl y caiff rhywfaint o'r data eu hanfon ymlaen at CIPFA i'w defnyddio yn eu cyhoeddiadau o ystadegau 'Gwirioneddol'. Gwneir hyn gyda chytundeb cymdeithasau'r awdurdodau lleol.

Pan fydd y set ddata yn derfynol, bydd is-setiau o'r data, i'w cymharu â phob awdurdod arall, yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

2. Materion eraill

Dylid cwblhau'r ffurflen gyflawn ar sail croniadau. Yn unol â'r 'Cod', mae'n rhaid i awdurdodau ddangos gwariant a derbyniadau cyfalaf ar sail croniadau yn eu cyfrifon cyhoeddus.

Un o ofynion yr archwiliad yw bod rhaid i bob rhan o'r ffurflen gael ei llenwi â data, gan ddefnyddio sero lle y bo angen. I helpu gyda hyn, mae sero wedi cael ei roi ym mhob cell wag.

3. Manylion cyswllt

Anfonwch gopi o'r daenlen wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2020, ac unrhyw ymholiadau neu ohebiaeth arall, yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru

Ymholiadau dros y ffôn: Frank Kelly – 0300 025 5673 neu Bruce Anderson – 0300 025 9169

Cyfeiriad post
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Cofion cynnes,

Anthony Newby

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government